# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0764(FM a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar 17 Mawrth 2008

**At Huw Lewis:**

Yn ystod y sesiwn cwestiynau llafar i'r Prif Weinidog ar 26 Chwefror, addawodd y Prif Weinidog y byddwn yn anfon ateb atoch am raglen ataliol diogelwch tân y Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA).

Ers i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi'r adroddiad 'Wired for Safety' (2001) ar ddiogelwch tân yn y cartref yng Nghymru yn 2001-02, rydym wedi bod yn cydweithio â'r Gwasanaeth Tân ac Achub, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i osod synwyryddion mwg wedi'u cysylltu i'r prif gyflenwad trydan mewn tai cymdeithasol. Trefnwyd bod dros £6.437 miliwn ar gael yng Nghymru hyd yma (£2.6 miliwn yn Ne Cymru), ac erbyn hyn mae synhwyrydd mwg o'r fath wedi'i osod mewn dros 87% o dai cymdeithasol.

Gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod pobl agored i niwed yn byw yn y sector preifat hefyd, mae wedi rhoi cyllid o dros £758,000 i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ers 2004 i ddarparu synwyryddion mwg hir-oes ac offer arall i atal tân. (Mae hyn yn cyfateb i dros 70,000 o Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref (HFSCs)).

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi amcangyfrif y cynhelir dros 25,000 o HFSCs ledled ardal y De yn y flwyddyn ariannol nesaf yn unig mewn tai preifat a thai cymdeithasol. Fy mwriad i yw bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gefnogi ehangu'r HFSCs. Nodir yr ymrwymiad hwn i ariannu'r gwaith o ddarparu offer cyfalaf (synwyryddion mwg ac ati) am y tair blynedd nesaf yn ein hymgynghoriad drafft a gyhoeddir cyn hir am Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0764(FM) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar 17 Mawrth 2008

**At Irene James:**

Yn sesiwn y cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 26 Chwefror, fe wnaethoch chi godi mater recriwtio diffoddwyr o dan y system 'dyletswydd wrth gefn' yng Ngorsaf Dân Aber-carn gan ofyn beth arall y gellid ei wneud i annog pobl i gael eu hyfforddi i fod yn ddiffoddwyr wrth gefn.

Yn eu Cynllun Lleihau Risg 2007-2008, mae Awdurdod Tân ac Achub (ATA) De Cymru wedi cynnig y dylid newid trefniadau'r criwiau o gael criw dydd i gael criw wrth gefn mewn pedair gorsaf lle ceir criw dydd ar hyn o bryd, yn cynnwys Aber-carn, rhwng 2009 a 2011. Mae hyn yn rhan o nifer o gynlluniau y mae'r Awdurdod o'r farn y byddent yn lleihau'r risg i gymunedau ac i staff y Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) ledled y De.

Mae'r ATA wedi buddsoddi £1.5m y flwyddyn i ddatblygu'r system dyletswydd wrth gefn i'r un safon â system y diffoddwyr shifft. Mae hyn yn cynnwys gwella'r amodau gwasanaethu a'i gwneud yn haws i'r diffoddwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu. Yn y gorffennol, byddai symud o gael criwiau dydd i'r system dyletswydd wrth gefn yn cael ei weld fel cam yn ôl. Barn broffesiynol y GTA yw nad yw hyn bellach yn wir oherwydd y newidiadau i'r system dyletswydd wrth gefn.

Rwy’n deall bod ATA De Cymru yn gwneud llawer o waith yn yr ardal i hyrwyddo gyrfaoedd yn y System Dyletswydd Wrth Gefn (SDWG). Mae hyn yn cynnwys hysbysebu mewn papurau newydd ac ar y radio, fel y sonioch yn eich cwestiwn gwreiddiol, yn ogystal â hysbysebu mewn gorsafoedd unigol. Yn fwy diweddar, mae’r Awdurdod wedi defnyddio trelar recriwtio ac wedi cynnal diwrnodau codi ymwybyddiaeth mewn gorsafoedd lleol. Fel rhan o waith ehangach i sicrhau bod gweithlu’r ATA yn fwy cynrychioliadol o’r gymuned y mae’n ei gwasanaethu, cyflwynwyd rhaglenni mynediad i geisio annog rhagor o ferched a phobl o leiafrifoedd ethnig i wneud cais i’r ATA.  Mae’r ATA yn ymroi i hyrwyddo’r SDWG trwy’r rhaglen hon gan ganolbwyntio ar unrhyw un sy’n byw o fewn pedair munud i orsafoedd y SDWG.

Yn ogystal, mae’r ATA wedi cyflogi Swyddog Ymgysylltu â Busnes a fydd yn trafod dau brif fater gyda chyflogwyr lleol:

• eu hannog i ryddhau staff i weithio ar y SDWG gan ddangos iddynt sut y gall y busnes elwa o hyn trwy wella sgiliau ac arbenigedd (e.e. arweinyddiaeth, gwaith tîm, dealltwriaeth o faterion iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf ac ati).

• eu hannog i sôn wrth eu staff am gyfleoedd y System Dyletswydd Wrth Gefn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu’r cymorth a ganlyn i’r ATAau er mwyn recriwtio ar gyfer y SDWG:-

• Yn ystod 2007 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddiau recriwtio cyffredinol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub i’w defnyddio yn lleol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol i hyrwyddo gyrfaoedd yn y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Roedd y wybodaeth yn cynnwys taflenni gwybodaeth penodol ar waith diffoddwyr ar y system dyletswydd wrth gefn a thaflen wybodaeth ar gyfer cyflogwyr yn esbonio manteision cael diffoddwyr SDWG yn gweithio iddynt. Paratowyd DVD hefyd yn rhoi cyflwyniad i yrfaoedd yn y GTA a’r profion sy’n rhan o’r broses recriwtio. Mae’r DVD yn ddwyieithog, mae’n cynnwys staff o’r tri GTA yng Nghymru ac yn sôm am waith staff y SDWG.

• Yn ogystal, mae ATAau Cymru wedi cael llythyron agored yn mynegi cefnogaeth Weinidogol i’r GTA ac yn annog cyflogwyr lleol i ryddhau staff ar gyfer y SDWG. Defnyddir y rhain mewn gweithgareddau lleol, fel y cynllun ymgysylltu â busnesau yn Ne Cymru y cyfeirir ato uchod.

• Yn 2008-09, bydd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ymroi i geisio sicrhau bod staff o’r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu rhyddhau ar gyfer y SDWG, gan ganolbwyntio ar awdurdodau lleol Cymru. Wrth gwrs, mae’r sector cyhoeddus yn gyflogwr o bwys yng Nghymru ac mae’r staff yn byw mewn cymunedau lleol ar hyd a lled y wlad. Bydd Llywodraeth y Cynulliad cyn ceisio gosod esiampl dda yn y maes hwn trwy edrych ar ei pholisïau a’i threfniadau hi ei hunan ar gyfer rhyddhau staff i fod yn Ddiffoddwyr Dyletswydd wrth Gefn.

• Yn ogystal, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn talu am offer i gynnal y profion corfforol a fydd yn rhan o’r broses newydd o ddewis diffoddwyr. Mae hyn yn cynnwys dwy set o offer cludadwy y gellir eu defnyddio fel dyfais recriwtio ryngweithiol mewn digwyddiadau cenedlaethol.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0748(FM) a gyhoeddwyd gan Leighton Andrews, y Dirprwy Weinidog dros Adfywio ar 17 Mawrth 2008**

**At Mark Isherwood:**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn Cwestiynau Prif Weinidog Cymru ar 26 Chwefror lle tynnoch sylw at y problemau a gaiff Menywod Duon a Menywod o Leiafrifoedd Ethnig o rai cymunedau wrth geisio manteisio ar dechnoleg. Buoch yn holi sut y byddem yn mynd i'r afael â hyn wrth ddiwygio menter Cymunedau @Ei Gilydd yn y dyfodol.

Mae Menter bresennol Cymunedau @Ei Gilydd Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ariannu nifer o grwpiau o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghasnewydd, yn Nghaerdydd ac yn Abertawe gan ein bod yn cydnabod bod amrywiaeth o ystyriaethau sy'n effeithio ar y modd y mae'r grwpiau hyn yn defnyddio technoleg. Ymhlith y prosiectau hyn mae'r cymorth ariannol a roddir yn uniongyrchol i Grwpiau Menywod Duon a Menywod o Leiafrifoedd Ethnig neu'r ddarpariaeth benodol a roddir trwy'r cymorth ariannol a ddarperir i grwpiau eraill o'r gymuned ddu ac o blith lleiafrifoedd ethnig. Er enghraifft, rhoddwyd arian i un grŵp menywod o'r gymuned ddu ac o blith lleiafrifoedd ethnig er mwyn iddynt gael hyfforddiant mewn ffotograffiaeth ddigidol ac adrodd straeon a hefyd Gofalu am Gyfrifiaduron Personol.

Efallai yr hoffech wybod bod Cymunedau @Ei Gilydd i fod i ddod i ben fis Mehefin eleni, fodd bynnag cytunais yn ddiweddar i ariannu staff yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru i sicrhau ei fod yn parhau hyd fis Medi 2008.

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wrthi'n llunio prosiect i'w olynu ac a fydd yn adeiladu ar y gwaith da a wnaed dan y fenter Cymunedau @Ei Gilydd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gefnogol i'r gwaith hwn a gwn fod yna drafod ar hyn o bryd am sut y gellid rhoi arian cyfatebol i'r fenter hon yn y dyfodol. Rwyf wedi gofyn i'ch sylwadau gael eu trosglwyddo i staff yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru wrth iddynt ddatblygu'r prosiect.